Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

RHEOLWR PARTNERIAETHAU CORFFORAETHOL
DISGRIFIAD SWYDD

Lleoliad: Gweithio hybrid gyda chyfleusterau swyddfa ar gael ym Mangor / Aberduna

Yn atebol i: Cyfarwyddwr Incwm, Aelodaeth ac Ymgysylltu

PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Bydd y Rheolwr Partneriaethau Corfforaethol yn gyfrifol am ddatblygu rhaglen partneriaethau corfforaethol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru drwy nodi, sicrhau a datblygu perthnasoedd gyda busnesau sydd eisiau cefnogi adferiad byd natur ledled Gogledd Cymru.

Gan weithio i ddechrau o bortffolio bach o gefnogwyr corfforaethol presennol, bydd deiliad y swydd yn canolbwyntio ar greu cyflenwad cryf o gyfleoedd partneriaeth newydd, cynhyrchu incwm cynaliadwy a chynyddu nifer a gwerth y perthnasoedd corfforaethol. Bydd yn datblygu partneriaethau buddiol i'r ddwy ochr sy'n cysylltu busnesau â gwaith yr Ymddiriedolaeth drwy godi arian, nawdd, aelodaeth gorfforaethol, gwirfoddoli a chyfleoedd ymgysylltu cyflogeion.

Bydd y rôl yn cyfuno datblygu busnes rhagweithiol â stiwardiaeth ragorol ar gefnogwyr presennol, gan helpu i greu partneriaethau hirdymor sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i fusnesau a byd natur.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Datblygu partneriaethau a busnes newydd

- Nodi, ymchwilio a datblygu perthnasoedd â darpar gefnogwyr corfforaethol.
- Cynhyrchu incwm newydd drwy bartneriaethau corfforaethol, nawdd, aelodaeth gorfforaethol, rhoddion a chodi arian cyflogeion.
- Datblygu cynigion, cyflwyniadau a phecynnau partneriaeth llawn cymhelliant wedi'u teilwra i anghenion busnes.
- Creu a rheoli cyflenwad o gyfleoedd partneriaeth gan ddefnyddio system CRM yr Ymddiriedolaeth.
- Cyflawni targedau incwm a gweithgarwch blynyddol y cytunwyd arnynt.

Rheoli perthnasoedd a stiwardiaeth

- Rheoli portffolio bach o gefnogwyr corfforaethol presennol a gweithredu fel eu prif bwynt cyswllt.
- Darparu stiwardiaeth o ansawdd uchel, gan sicrhau bod partneriaid yn deall effaith eu cefnogaeth.
- Cynhyrchu diweddariadau effaith ac adroddiadau partneriaeth lle mae hynny’n briodol.
- Nodi cyfleoedd i gynyddu cefnogaeth drwy weithgareddau codi arian, nawdd, gwirfoddoli ac ymgysylltu ychwanegol.
- Ailymgysylltu â chefnogwyr corfforaethol sydd wedi dod â’u cefnogaeth i ben a datblygu cyfleoedd ar gyfer partneriaethau hirdymor.

Aelodaeth gorfforaethol ac ymgysylltu cyflogeion

- Rheoli a datblygu cynllun aelodaeth gorfforaethol yr Ymddiriedolaeth.
- Cefnogi busnesau i ymgysylltu â chyflogeion drwy heriau codi arian, gwirfoddoli a gweithgareddau lles.
- Gweithio gyda'r arweinydd gwirfoddoli i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosib ar gyfer gwirfoddoli corfforaethol a chyfranogiad ymarferol mewn cadwraeth.
- Helpu i greu profiadau cadarnhaol sy'n meithrin cefnogaeth hirdymor i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Cynllunio, adrodd a gweinyddu

- Cadw cofnodion manwl gywir o weithgarwch corfforaethol, cyfathrebu ac incwm gan ddefnyddio'r system CRM.
- Monitro perfformiad yn erbyn targedau incwm a darparu diweddariadau rheolaidd am gyflenwad a pherfformiad.
- Cefnogi rhagolygon cyllideb a chynllunio incwm.
- Sicrhau bod gwybodaeth am bartneriaethau a data cefnogwyr yn cael eu rheoli'n fanwl gywir ac yn ddiogel.

Cydymffurfiaeth a chydweithredu

- Sicrhau bod partneriaethau corfforaethol yn cydymffurfio â pholisïau sefydliadol, rheoliadau codi arian a gofynion GDPR.
- Ymgymryd â diwydrwydd dyladwy priodol gyda darpar gefnogwyr corfforaethol.
- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr codi arian, aelodaeth, cyfathrebu, gwirfoddoli a chadwraeth i sicrhau'r cyfleoedd partneriaeth gorau posib.
- Cynrychioli Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru mewn digwyddiadau busnes, cyfleoedd rhwydweithio a chyfarfodydd.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac felly dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y'u nodir yn llawlyfr y staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gosod a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'fedru gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

RHEOLWR PARTNERIAETHAU CORFFORAETHOL
MANYLEB Y PERSON

Rhinweddau Personol

Hanfodol

Profiad
- Profiad o ddatblygu busnes, rheoli cyfrifon, codi arian neu bartneriaethau corfforaethol.
- Profiad o feithrin perthnasoedd gyda rhanddeiliaid allanol a sicrhau cefnogaeth neu incwm.
- Profiad o weithio tuag at dargedau ariannol neu berfformiad.
- Profiad o ddefnyddio systemau CRM i reoli cysylltiadau a gweithgarwch.
- Profiad o gynhyrchu cynigion, cyflwyniadau neu achosion busnes ysgrifenedig.

Gwybodaeth a sgiliau
- Sgiliau cadarn o ran meithrin perthnasoedd, rhwydweithio a dylanwadu.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
- Y gallu i nodi cyfleoedd a throsi darpar gysylltiadau yn gefnogwyr.
- Sgiliau trefnu a rheoli prosiectau da.
- Y gallu i reoli blaenoriaethau lluosog a chadw at derfynau amser.
- Cymwys mewn systemau Microsoft Office a CRM.
- Dealltwriaeth o'r GDPR ac egwyddorion diogelu data.

Rhinweddau personol
- Angerddol am adfer byd natur a gwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- Rhagweithiol, llawn hunangymhelliant a ffocws ar ganlyniadau.
- Masnachol ymwybodol gyda sgiliau rhyngbersonol rhagorol.
- Cydweithredol ac yn gallu gweithio'n effeithiol ar draws timau.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Dymunol
- Profiad o godi arian corfforaethol neu nawdd.
- Profiad o ddatblygu rhaglenni ymgysylltu cyflogeion neu wirfoddoli.
- Dealltwriaeth o agendâu ESG, cynaliadwyedd neu gyfrifoldeb corfforaethol.
- Gwybodaeth am gymuned fusnes Gogledd Cymru.
- Sgiliau yn y Gymraeg.

Dymunol
- Sgiliau yn y Gymraeg neu werthfawrogiad o bwysigrwydd cyfathrebu dwyieithog yng Nghymru.

Gwybodaeth at ddibenion yswiriant yn unig:
Canran y tasgau clerigol o gymharu â thasgau llaw yn y rôl hon:
100% clerigol / 0% llaw